

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 12 Rhagfyr 2017 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.

PRESENNOL		
Daniel Williams	Einir Wyn Coates	
Iestyn Harris	Eifion Williams	
Mair Bebb Jones	Nerys John	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Mr Gwilym Rippon	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
1.1	Agorwyd y Cyfarfod misol gan y Cadeirydd Daniel Llywelyn Williams. Cyfeiriodd at brofedigaeth y Cynghorwyr Sarah Riley a Casi Roberts. Cyfeiriodd at farwolaeth y diweddar Alun Lewis Jones cynaelod o'r Cyngor Cymuned a diolchodd am ei gyfraniad i'r gymuned. Dangoswyd gwerthfawrogiad y Cyngor drwy enyd o dawelwch.	
2.0	Estynodd y Cadeirydd groeso i Mr Gwilym Rippon i'r cyfarfod a diolch iddo am ei adroddiad. Rhoddodd Mr Rippon eglurhad o'r broses o arfarnu swyddi'r clerod ac awgrymu bod y Clerc yn dilyn tystysgrif mewn Gweinyddu Cynghor Lleol, Tystysgrif Lefel 1 mewn Addysg uwch mewn ymrwymiad a trefn llywodraethol Cyngor neu cymhwyster cyfartal oedd yn cael ei gynnig gan Brifysgol Swydd Caerloyw. Isbwyllgor Cyflogaeth i ystyried yr adroddiad a chyflwyno adroddiad i'r Cyngor yn ei gyfarfod misol nesaf	IS-BWYLLGOR CYFLOGAETH
3.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD	
	Dim adroddiad.	
4.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
5.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
5.1	Derbyniwyd gwariant mis Rhagfyr 2017 a derbyniwyd adroddiad am y mis. Ystyriwyd anfoneb Menter Fachwen a phenderfynwyd bod angen dadansoddiad o'r anfoneb mewn perthynas a beth yw'r gwaith sydd yn cael ei gario allan.	SWYDDOG ARIANNOL
5.2	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol gymhariaeth o'r Cyllid drafft a'r gwir wariant, derbyniwyd y cymhariaeth gan y Cyngor.	
5.3	Trafodwyd gwariant ar lwybrau'r ardal; penderfynwyd bod cynllun o fap y llwybrau yn cael ei brintio er mwyn cael y Swyddog torri gwair i farcio arno y gwaith torri mae yn ei wneud. Y Cynghorydd Eion Williams i wneud trefniadau ar gyfer cael map a'r Clerc i gysylltu a'r Swyddog torri gwair	EW/CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

5.4	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Gynllun drafft ar gyfer 2018-2019 a dangosodd nad oedd angen am eleni codi'r praesept. Felly cynnigwys ac eilwyd bod pris y praesept am 2018-2019 yn parhau fel yn 2017-2018.	
6.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
6.1	Penderfynwyd aros hyd nes mis nesaf ar gyfer cadarnhau'r cofnodion.	
7.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD	
7.1	Cyfarfod wedi ei drefnu rhwng y Cadeirydd a'r Adeiladwyr ar y nos Fawrth Canlynol.	DW
7.2	Y Cadeirydd am drefnu cyfarfod o'r isbwyllgor y Neuadd. Bydd yn hysbysu'r aelodau o'r dyddiad ag amser.	CLERC
7.3	Rhodddwyd wybodaeth bod teclyn cymryd "bookings" yn costio £500. Penderfynwyd symud ymlaen a hysbysu Delwedd i symud ymlaen a chyflwyno'r darpariaeth ar y wefan.	CLERC
8.0	ADRODDIAD COFEB Y CLOC	
8.1	Dywedodd y Clerc os byddai ysgol aliminiwm yn cael eu gosod o fewn y cloc yna byddai proses o archwiliad gweledol yn ddigonol a bod yr archwiliad yn cael ei gofnodi mewn llyfr log.	
9.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
9.1	C17/1232/20/LL – 1. Newid amod 1 o ganiatad cynllunio C12/0986/20/LL er mwyn ymetyn yr amser i ddechrau gwaith ar y datblygiad i 5 mlynedd ychwanegol. 2. Diddymu amodai 5,6, a 7 o ganiatad cynllunio rhif C12/0986/20/LL parthed gofynion y od cartrefi cynaliaday gan nad yw mwyach yn berthnasol – 11 Ffordd Caernarfon, Y Felinheli LL56 4RZ. - GWRTHWYNEBIAD ar sail bod yr ardal yn cael ei orr-ddatblygu ac o ganlyniad mae pwysau traffig a pharcio ar y ffordd.	CLERC
9.2	C17/1251/20/LL – dymchwel toiledau cyhoeddus, codi adeilad newydd yn cynnwys toiledau cyhoeddus a storfa ynghyd a chreu llain galed newydd a gwaith cysylltiedig – Cyfleusterau Cyhoeddus, Beach Road, Y Felinheli LL56 4RQ – DIM GWRTHWYNEBIAD - ond mae sylwadau wedi eu derbyn gan y Cyngor oddi wrth drigolion yr ardal, roedd y sylwadau yn ddilys a pherderfynwyd anfon ymlaen y canlynol. 1. Yr adeilad angen to pyg er mwyn trio nadu plant rhag ddringo i fyny'r adeilad. 2. Troi y mynedfa i'r gwrthwyneb rhag bo mynediad y toiledau o fewn tywyllch; felly y mynedfa' wynebu'r tir gwyrdd. 3. Cadw'r palmant yn glir o unrhyw rhwystr	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	ac argymell bod y storfa yn cael eu gosod tuag at y môr.	
9.3	C17/1249/20/LL – Rhannu annedd presennol i greu dau fflat newydd gan gadw annedd deulawr – Melan, Plot 4 Caernarfon Road, Y Felinheli LL56 4RZ – GWRTHWYNEBIAD – ar sail bod gorr ddatblygiad ar Ffordd Gaernarfon ac yn cynyddu pwysau traffig a pharcio. Bydd y cynllun yma hefyd yn cael effaith ar y cynllun Lon Las sydd ar hyn o bryd wedi ei rhoi o’r neilltu oherwydd diffyg cyllid. Mae’r cynllun lon las yn cysylltu pen y brys a lon Dinas ger y feddygfa ac os byddai cerbydau yn cael defnyddio’r rhan yma byddai risg o wrthdrawiad a cherddwyr. Byddai rhaid I’r ymgweisydd gael hawl y Cyngor Cymuned I gael chroesi y ffordd las.	
10.0	ADRODDIAD Y FYNWENT	
10.1	Mae blwyddyn arall ar gontract torri gwait y fynwent. Bydda ngen I’r gwair gael ei dorri yn mis Mawrth oherwydd bod Sul y Blodau o fewn y mis hwn.	CLERC
11.0	ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
11.1	Y Clerc I wneud ymholiadau gyda peter Simpson ynglyn a pha bryd mae’r contractor llinellau am gwblhau y gwaith o fewn y Maes Parcio	CLERC
12.0	ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANAU A MEINCIAU	
12.1	Y Clerc I wneud trefniadau I drafod Allt Gam gyda Swyddogion y Cyngor. Deallir nad yw y llwybr ar hyn o bryd yn agored.	CLERC
13.0	ADRODDIAD PRIFFYRDD	
13.1	Dim adroddiad wedi ei dderbyn ynglyn ag archwiliad Ffordd Caernarfon.	CLERC
14.0	PROSIECTAU	
	Dywedodd y Cynghorydd Nerys John bod angen symud ymlaen i weld sut gall y Cae Chwarae gael ei ddatblygu ymhellach ar gyfer plant hyn.	NJ
15.0	TOILEDAU CYHOEDDUS	
	Gweler adran cynllunio	
16.0	GWYDNWCH CYMUNEDOL	
16.1	Trafodwyd dewis dyddiad ar gyfer cyfarfod cyhoeddus ond oherwydd bod y Cyngor gyda gymaint o waith ar hyn o bryd penderfynwyd trafod y cyfarfod cyhoeddus yng nghyfarfod	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	nesaf y cyngor.	
16.2	Dywedodd y Cadeirydd bod ei wraig a'I fab wedi trefnu llenwi bagiau tywod rhag risg o lifogydd yn ddiweddar. Y Clerc I wneud ymholiadau ar gyfer cael bagiau sach oddi wrth Cyngor Gwynedd.	
17.0	GWEFAN	
	Gweler adran 5.0	
18.0	MATERION AMRYWIOL	
	Dim	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:35	
Llofnod:		Dyddiad: